*"A"*

# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, **9fed Mawrth, 2020**, yn Festri Capel Hebron, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

*Presennol*: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir
Ymddiheuriadau: Y Cynghorywyr David Brunelli, Sion Williams

## 87. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a llongyfarchodd blant fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch a'r Sir o'r Urdd ac i bawb fu'n eu hyfforddi.

## 87(A). DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd buddiant personol mewn unrhyw eitem.

## 88. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 10fed Chwefro, 2020.
(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans).

## 89. CEISIADAU CYNLLUNIO

**Cyflwynwyd** y ceisiadau cynllunio a ganlyn:

(a) Cais C20/0124/32/LL – dymchwel yr adeiladau garej a bloc toiledau presennol. Datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys codi siop garej newydd gyda gwasanaeth prydau parod, blaengwrt a phymiau tanwydd – Pen y Bont Garage, Sarn Mellteyrn.
(b) Cais C20/0122/32/LL – trosi rhan o dy annedd i ffurfio uned wyliau hunangynhaliol – Bron Dywydd, Bryncroes.

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais.

## 90. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Ni chodwyd unrhyw fater fod angen sylw.

## 91. MATERION IECHYD

Ni chodwyd unrhyw fater.

92. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Canolfan Bryncroes | £40.00 |
| Neuadd Goffa Sarn | £30.00 |
| Festri Capel Rhydbach | £20.00 |
| Festri Capel Hebron | £20.00 |
| Y Clarc | £372.55 |
| HMRC | £93.20 |
| Costau stampiau | £67.55 |

93. **BREXIT – CYNGOR I DRIGOLION A BUSNESAU**

**Cyflwynwyd** llythyr Pennaeth Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd, yn amlinellu'r gefnogaeth a'r arweiniad sydd ar gael i drigolion a busnesau'r sir yng nghyd-destun Brexit. (copi o'r llythyr wedi ei anfon allan i bob aelod gyda'r rhaglen er rhoi cyngor i trigolion os bydd gofyn).

**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

94**. POLISIAU'R CYNGOR**

**Cyflwynwyd a mabwysiadwyd:**
**Rheolau Sefydlog y Cyngor**
**Rheoliadau Cyllidol y Cyngor**
**Asesiad Risg**

**Arwyddwyd y copiau mabwysedig gan y Cadeirydd.**

95. **BARBIO TIROEDD Y CYNGOR**

**Adroddodd** y Clarc oherwydd rhyw amrywfusedd nad oedd hysbyseb am farbio tiroedd y Cyngor wedi ymddangos yn rhifyn Chwefror o 'Llanw Llyn' a gofynnodd am arweiniad beth i'w wneud gan fod y tymor barbio yn dechrau ar 1af Ebrill, 2020.

**Penderfynwyd**
(a) Anfon manylion y gwaith i Mr. J.A. Pozzi, yr Ymgymerwr sydd wedi gwneud y gwaith i ni dros nifer o flynyddoedd.
(b) Rhoddi hysbyseb i fyny yn y tair Ward yn gwahodd tendrau.